



Ein cyf/Our ref MA(P)/RE/0454/17

Mark Reckless
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

23 Chwefror 2017

Annwyl Mark,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 31 Ionawr 2017 ynghylch ansawdd aer yng Nghymru. Roeddwn yn falch o glywed bod eich pwyllgor wedi trafod y mater pwysig hwn ar 18 Ionawr, gan fod dod i gysylltiad â llygredd aer yn benderfynydd iechyd pwysig.

Fel y gwyddoch, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig sy'n gyfrifol am bolisiau ansawdd aer. Fodd bynnag, mae mynd i'r afael ag ansawdd aer yn gofyn am ddull o weithio sydd â nifer o linellau gweithredu, lle mae camau'n cael eu cymryd mewn perthynas ag amrywiaeth eang o feysydd, gan gynnwys dulliau o reoli ansawdd aer yn lleol, sut mae diwydiant yn cael ei reoleiddio, materion sy'n ymwneud â'r gyfundrefn gynllunio, a'r ymdrechion i hyrwyddo teithio llesol. Gan hynny, mae fy swyddogion innau yn yr Is-adran Iechyd y Cyhoedd, gyda chymorth gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn gweithio gyda swyddogion cyfatebol yn Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar faterion sy'n gysylltiedig ag ansawdd aer pan fo'r gwaith yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd.

Byddwch wedi cael gwybod bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn ddiweddar ynghylch sut y gellid gwella ansawdd aer a dulliau o reoli sŵn yn lleol. Mae fy swyddogion wrthi'n ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, a byddant yn helpu i ddatblygu cynigion ar gyfer unrhyw gamau pellach y gellid eu cymryd i leihau'r peryglon i iechyd a'r anghydraddoldebau sy'n codi pan fo pobl yn dod i gysylltiad â llygredd aer. Mae'r camau gweithredu canlynol ymysg y rhai y bydd fy swyddogion yn symud ymlaen â nhw:

- cynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr iechyd proffesiynol a'r cyhoedd o faterion sy'n ymwneud ag ansawdd aer;
- datblygu canllawiau ar gyfer Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd y Byrddau Iechyd Lleol, Cyfarwyddwyr Amddiffyn y Cyhoedd yr Awdurdodau Lleol, ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, er mwyn annog integreiddio a hyrwyddo ffyrdd mwy effeithiol a chydgyssylltiedig o reoli ansawdd aer lleol. Bwriedir i'r canllawiau hyn bwysleisio'r angen i ddefnyddio dull gweithredu deuol ar gyfer rheoli ansawdd aer yn lleol. Hefyd byddant yn amlinellu'r camau y gellir eu cymryd i leihau'r peryglon mewn perthynas â'r holl ymyriadau, gan

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gynnwys ymyriadau a dargedir, ar gyfer lleihau peryglon ac anghydraddoldebau yn yr ardaloedd hynny lle mae'r ansawdd aer ar ei waethaf a lle mae'r anghenion mwyaf o ran iechyd cyhoeddus.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnal ymchwil i geisio gwella'r trefniadau ar gyfer Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol yng Nghymru, ac mae am sicrhau bod anghenion iechyd cyhoeddus; dulliau o gydweithio; a'r effeithiau a gyflawnir yn cael eu hintegreiddio cymaint â phosibl. Felly, bydd fy swyddogion yn gweithio'n agos gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y ddwy ffrwd gwaith uchod.

Drwy'r trafodaethau gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac awdurdodau lleol, a gynhelir drwy Fforwm Ansawdd Aer Cymru, mae fy swyddogion hefyd yn cyfrannu at yr ymdrechion i:

- wella'r polisi a'r canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol, o ran cynllunio cenedlaethol sy'n ymwneud ag ansawdd aer; a
- datblygu syniadau ar gyfer cynigion mwy sylweddol ar gyfer gwella'r ffordd o reoli ansawdd aer yn lleol yng Nghymru.

Mae'r ymateb hwn yn amlygu rhai o'r prif ddarnau o waith ar ansawdd aer yr wyf yn bwrw ymlaen â nhw. Os byddwch am gael rhagor o wybodaeth, mae croeso ichi gysylltu â mi.



Rebecca Evans AC/AM

Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Social Services and Public Health